Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Llanfaethlu
# Coffee House
# Neuadd Griffith Reade
# Llanfaethlu
# Ynys Môn
# LL65 4NF

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 12/06/2012**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Llanfaethlu yn y neuadd bresennol ugain mlynedd yn ôl er mwyn cynnig darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg i blant pentref Llanfaethlu a'r ardal wledig sydd o'i chwmpas. Mae yn rhan o ddarpariaeth y Mudiad Ysgolion Meithrin ar ran Partneriaeth Plant Ynys Môn.

Mae'r ardal yn Gymraeg ei hiaith a'i diwylliant gydag oddeutu 69% o'r plant sy'n mynychu'r cylch yn siarad Cymraeg gartref fel eu prif iaith.

Yn ystod yr arolygiad roedd 16 o blant dwy-a-hanner a thair oed yn mynychu'r cylch. Mynycha'r plant y cylch am ddwy awr a hanner y diwrnodd, bedwar bore'r wythnos. Caiff y cylch ei staffio gan arweinydd, a dwy gymhorthwraig dysgu. Ar adeg yr arolygiad roedd myfyrwraig dan hyfforddiant yn aelod ychwanegol o'r staff.

Mae'r ystafell a ddefnyddir gan y cylch o faint da ac mae ardal chwarae ddiogel i'r plant y tu allan.

Disgrifir yr ardal fel un nad yw'n ffyniannus nag o dan anfantais economaidd. Mae gallu'r plant yn amrywio'n sylweddol pan gychwynant yn y cylch. Ar ddiwedd eu cyfnod yn y cylch, bydd y plant yn trosglwyddo i ysgolion cynradd yr ardal lle byddant yn parhau i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r gan ddwy o'r staff gymwysterau addas yn addysg y blynyddoedd cynnar. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn Rhagfyr 2011. Cafodd ei arolygu'n flaenorol gan Estyn yng Ngorffennaf 2006.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol y cylch yn dda oherwydd:

- fod yr holl blant yn cyflawni safonau da gan wneud cynnydd da o'u man cychwyn;
- fod bron pob plentyn yn ymdrechu a chanolbwyntio'n dda ar dasgau;
- fod y plant yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau ac arweiniad oedolion gan ddangos parch tuag atynt;
- yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau yn dda;
- fod yr ymarferwyr yn cydweithio'n dda fel tîm ac yn ymyrryd yn effeithiol yn chwarae'r plant i gyfoethogi'r addysgu; a
- bod yr ethos cynhwysol sy'n bodoli yn y Cylch yn hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch i bawb.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r cylch yn dda oherwydd:

- fod gan y cylch nodau ac amcanion clir ar gyfer gwella;
- fod yr arweinydd wedi sefydlu cysylltiadau da â rhieni a phartneriaid eraill;
- fod y pwyllgor rheoli yn ymgymryd yn gydwybodol â'i gyfrifoldebau;
- fod gan y cylch ddealltwriaeth dda o'i gryfderau a'r meysydd i'w gwella; ac
- fe gaiff adnoddau ariannol eu rheoli'n effeithiol a'u cysylltu gyda chynlluniau gwella yn dda.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r cylch:

A1 ddatblygu medrau'r plant mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;

A2 ddatblygu ei drefniadau gwella i sicrhau bod yr holl feysydd i'w gwella yn cael ystyriaeth briodol dros amser;

A3 gynllunio'n fwy manwl ar gyfer gweithgareddau yn yr ardal allanol; a

A4 sicrhau cyfleoedd digonol i'r plant elwa ar gysylltiadau ehangach â'r gymuned;

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y cylch yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r holl blant yn cyflawni safonau da gan wneud cynnydd da o'u man cychwyn. Yn gyffredinol mae'r plant yn dangos dealltwriaeth dda o eiriau a chyfarwyddiadau sylfaenol yn y Gymraeg. Mae'r plant sydd o gartrefi ble nad yw'r Gymraeg yn iaith gyntaf yn deall mwy o eiriau nag y gallant siarad. Maent yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau ac yn ymuno'n frwdfrydig mewn gweithgareddau megis caneuon actol, caneuon a rhigymau.

Mae bron pob plentyn yn dangos ymdrech ganmoladwy gan ganolbwyntio'n dda ar dasgau. Maent yn gweithio'n dda ac yn dangos diddordeb yn y gweithgareddau a osodir iddynt. Maen nhw'n medru gwneud dewisiadau syml ac ar y cyfan yn cyflawni'n dda.

Mae medrau cyfathrebu'r plant yn datblygu'n briodol. Mae'r mwyafrif ohonynt yn gallu sgwrsio'n hyderus gyda'i gilydd a gydag oedolion. Maent yn cwestiynu ac yn gwrando ar yr ymatebion ac yn gallu trafod eu gwaith a'u chwarae a mynegi barn. Mae eu geirfa yn ymestyn yn gyson. Mae pob plentyn yn ymuno yn y gweithgareddau llafar ar adeg croesawu a chofrestru gan ymateb yn briodol mewn trafodaeth am y tywydd neu drefniadau'r dydd.

Mae tua hanner y plant yn gallu adnabod eu henwau ar gerdyn yn ystod yr amser croesawu ac mae'r rhai mwyaf aeddfed yn gallu adnabod geiriau syml mewn llyfr neu ar arddangosfeydd ar y mur. Mae bron pob plentyn yn mwynhau datblygu ei sgiliau marcio gan ddefnyddio amrywiol gyfryngau megis paent neu creonau a drwy symud eu bysedd drwy dywod. Mae mwyafrif y plant yn datblygu dealltwriaeth dda o swyddogaeth ysgrifennu. Mae bron pob plentyn yn mwynhau dewis llyfrau yn annibynnol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn trin llyfrau fel darllenwyr, gan droi tudalennau ac ail-adrodd storïau cyfarwydd yn ystyrlon.

Mae'r holl blant yn datblygu dealltwriaeth rhif a gall bron pob un gyfrif i ddeg gydag oedolyn. Mae lleiafrif o'r plant yn adnabod siapiau syml. Nid yw medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant wedi datblygu'n ddigonol ac ychydig ohonynt sydd yn gallu defnyddio tegan rhaglenadwy yn briodol.

**Lles: Da**

Mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau ac arweiniad oedolion ac yn dangos parch tuag atynt. Maent yn hapus a chartrefol yn y cylch ac yn ymddwyn yn dda yno. Mae perthynas dda rhyngddynt a'i gilydd a gyda'r staff ac fe ofynnant am gymorth os oes angen.

Mae'r plant yn ymwybodol o bwysigrwydd hylendid a diogelwch personol ac mae'r mwyafrif yn cymryd cyfrifoldeb am dacluso a chadw offer pan fo'n briodol. Mae'r mwyafrif yn golchi eu dwylo heb fawr ddim cymorth gan oedolion. Maent yn bwyta

eu byrbryd mewn awyrgylch trefnus, gan werthfawrogi cyfleoedd i gynorthwyo i weini a chlirio'r bwrdd. Mae'r mwyafrif yn ymwybodol bod cynnwys y byrbryd yn eu helpu i fod yn iach.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i sialens gweithgareddau newydd. Maent hefyd, yn unol â'u gallu a'u cyfnod datblygu, yn datblygu eu medrau fel dysgwyr a meddylwyr annibynnol. Maent yn mwynhau dewis gweithgareddau yn yr ardaloedd dysgu mewnol ac allanol ac mae'r mwyafrif ohonynt yn canolbwyntio am gyfnodau addas wrth gyflawni tasgau. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cydweithio'n dda ar dasgau grŵp.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n thematig gan adnabod cyfres o themâu addas dros flwyddyn. O fewn y themâu mae'r cynllunio tymor byr yn canolbwyntio ar dasgau ffocws effeithiol. Mae hefyd yn rhoi sylw priodol i adnoddau perthnasol yn yr ardaloedd dysgu ac arweiniad ar y cyfleoedd i ddatblygu ystod addas o fedrau sylfaenol. Mae hyn yn ennyn diddordeb y plant ac yn cyfoethogi eu profiadau.
Yn gyffredinol mae'r cynllunio o fewn y themâu yn sicrhau cydbwysedd ar draws y meysydd dysgu ac yn hybu deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn cynnwys darparu cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau a arweinir gan blant a gan oedolion ac yn sicrhau defnydd effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael. Serch hynny, nid yw'r cynllunio yn rhoi sylw digonol i weithgareddau yn y gofod dysgu allanol. Prin hefyd yw'r profiadau y mae'r plant yn eu cael i gyfoethogi eu dysgu drwy gyfarfod ag ymwelwyr ac ymweld â lleoliadau tu allan i'r cylch.

Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau yn dda. Mae'r cynllunio yn adnabod cyfleoedd ar draws y gweithgareddau i'r plant gaffael medrau llythrennedd a rhifedd. Mae ystod dda o'r gweithgareddau yn sicrhau cyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd a gaiff y plant i ddatblygu medrau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae gweithgareddau a threfniadau'r lleoliad i ddatblygu'r iaith Gymraeg ag i hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a diwylliant Cymru yn effeithiol iawn. Nid oes cyfleoedd digonol i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd ehangach.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth gadarn o'r Cyfnod Sylfaen a threfnir y dysgu'n addas ar gyfer datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau plant ar draws y meysydd dysgu. Mae'r ymarferwyr hefyd yn cynnig modelau addas ar gyfer iaith y plant. Defnyddir ystod dda o adnoddau i ddarparu gweithgareddau sy'n symbylu, herio a chyffroi'r plant. Fe drefnir cydbwysedd priodol o gyfleoedd iddynt weithio fel unigolion, mewn grwpiau ac fel cylch cyfan.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda fel tîm ac yn ymyrryd yn effeithiol yn chwarae'r plant i gyfoethogi'r addysgu. Maent yn defnyddio dulliau holi medrus i sicrhau gwahaniaethu effeithiol wrth herio'r plant. Mae disgwyliadau'r ymarferwyr yn uchel ac maent yn rheoli ymddygiad y plant yn effeithiol.

Yn gyffredinol, mae gan y lleoliad drefniadau priodol ar gyfer asesu dysgu'r plant. Gwneir asesiad, ar y cyd gyda rhiant, pan fo'r plentyn yn cychwyn yn y lleoliad ac mae hyn yn gosod sail effeithiol ar gyfer mesur cynnydd dros amser. Mae'r ymarferwyr yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau rheolaidd sy'n mesur cynnydd plant yn effeithiol. Maent hefyd yn cofnodi camau addas ar gyfer datblygiad pellach y plant. Serch hynny, nid yw'r defnydd a wneir o'r cofnodion yma ar gyfer cynllunio wedi datblygu'n ddigonol hyd yma.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ymarferwyr amcanion a gwerthoedd clir. Pwysleisir yr angen am gwrteisi a pharch ac mae disgwyliadau'r ymarferwyr o ymddygiad y plant yn uchel. Caiff y plant eu canmol am ymddygiad addas ac maent yn deall yr angen i rannu a disgwyl twrn pan fyddant eisiau ymuno â gweithgaredd poblogaidd neu weithgaredd ble mae angen cyfyngu ar y niferoedd. Mae'r berthynas dda rhwng ymarferwyr a phlant yn elfen gadarnhaol yn yr addysgu ac mae'r ethos cynhwysol sy'n bodoli yn y Cylch yn hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch i bawb.

Gwneir defnydd da o gyfnodau megis amser bwyta ac amser tacluso i ddatblygu sgiliau cymdeithasol y plant. Mae bwyta'n iach yn cael ei hybu ac mae'r byrbryd dyddiol yn cynnwys llaeth, iogwrt a ffrwythau. Mae'r profiadau dysgu, yn enwedig y defnydd effeithiol o amser cylch gyda'r grŵp cyfan, yn hyrwyddo datblygiad moesol ac ysbrydol y plant yn dda. Mae'r plant yn teimlo'n gartrefol yn y cylch ac mae'r ymarferwyr yn ofalgar a bob amser wrth law i gysuro pe bai angen. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles cyffredinol plant ac yn cefnogi eu dysgu yn effeithiol.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae cysylltiadau da yn bodoli ag asiantaethau arbenigol yn ôl yr angen.
Ceir trefniadau priodol ar gyfer adnabod a chefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ethos cynhwysol sy'n bodoli yn y Cylch yn hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch i bob un o'r plant. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac maent yn meithrin perthynas ofalgar a chynhaliol sy'n cyfoethogi eu lles emosiynol. Mae'r lleoliad yn hybu agweddau goddefgar ymysg y plant ac fe ddelir yn effeithiol ag unrhyw achos o aflonyddu.

Yn gyffredinol, mae gan y cylch gyflenwad da o adnoddau addas. Mae hyn yn galluogi'r lleoliad i ymateb yn effeithiol i ofynion cwricwlwm y cyfnod sylfaen, ac anghenion penodol y plant. Mae'r ymarferwyr wedi sicrhau cytundeb i wneud defnydd o adnoddau cyfrifiadurol y ganolfan gymuned yn y dyfodol agos. Bydd hyn yn gwella ansawdd y ddarpariaeth ac yn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Mae'r adeilad yn ddigonol o ran maint a chyfleusterau ac mae gofod priodol ar gyfer gweithgareddau allanol wedi ei ddatblygu yn ddiweddar. Prin yw'r defnydd o'r amgylchedd lleol i ychwanegu at y cyfleusterau sydd ar gael i'r cylch.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y cylch nodau ac amcanion clir ar gyfer gwella. Mae'r rhain yn cynnwys gwerthoedd sydd yn hyrwyddo cydraddoldeb ac mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod ethos cefnogol i ddysgu yn bodoli yn y lleoliad. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer sicrhau bod pob un o'r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldeb mewn perthynas â gweithgaredd dyddiol y cylch yn ogystal â nodau a chynlluniau mwy estynedig. Mae gan pob aelod o staff swydd-ddisgrifiad gyfredol ac fe drefnir cyfleoedd addas iddynt fanteisio ar raglen hyfforddiant i gefnogi eu datblygiad proffesiynol. Mae'r arweinydd wedi sefydlu cysylltiadau da â rhieni a hefyd gyda phartneriaid eraill. Mae gan yr arweinydd gysylltiadau gweithio da gydag athrawes ymgynghorol y bartneriaeth leol. Mae hyn wedi sicrhau cefnogaeth effeithiol i'r arweinydd wrth ddatblygu nodau a threfniadau sy'n canolbwyntio ar anghenion plant.

Mae'r pwyllgor rheoli yn ymgymryd yn gydwybodol â'i gyfrifoldebau. Mae aelodau'r pwyllgor yn cadw cyswllt agos â staff i drafod anghenion a datblygiadau gan weithredu'n effeithiol fel cyfeillion beirniadol. Mae'r cylch wedi elwa hefyd o waith effeithiol y pwyllgor rheoli i sicrhau adnoddau ychwanegol i wella ansawdd y ddarpariaeth.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae diwylliant o hunan arfarnu yn datblygu'n briodol o fewn y lleoliad. Mae gan y cylch ddealltwriaeth dda o'i gryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae trefniadau addas yn eu lle i roi ystyriaeth i farn rhieni ac fe roddir sylw da i argymhellion yn deillio o ymweliadau yr athrawes gefnogi. Serch hynny, nid yw'r holl feysydd gwella sydd wedi eu hadnabod gan y cylch yn cael eu cofnodi yn ddigon clir yn yr adroddiad hunan arfarnu. O'r herwydd, nid yw pob angen perthnasol yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer ei wella dros amser. Nid yw'r barnau yn yr adroddiad chwaith wedi eu cefnogi'n ddigon cadarn bob amser gan dystiolaeth uniongyrchol.

Yn gyffredinol, mae'r cylch yn gweithredu strategaethau priodol ar gyfer ymateb i feysydd sydd angen eu gwella. Mae'r cynlluniau gwella yn amlinellu amserlenni priodol ar gyfer eu cyflawni ac yn dyrannu cyfrifoldeb am eu gweithredu. Mae'r holl ymarferwyr yn ymwybodol o'r strategaethau yma ac o'u cyfrifoldebau wrth eu rhoi ar waith.

Mae elfen gref o gydweithio rhwng yr ymarferwyr â'i gilydd a gyda'r pwyllgor rheoli. Mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar ansawdd y dysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad wedi sefydlu perthynas dda gyda rhieni. Ceir cyfleoedd effeithiol ar ddechrau a diwedd sesiynau i gyfnewid gwybodaeth yn ymwneud â lles a chynnydd dydd-i-ddydd y plant. Darperir gwybodaeth gynhwysfawr am ddatblygiad a chynnydd hefyd drwy gyflwyno portffolio o waith y plant yn y 'Llyfr Trysor' ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Cyflwynir gwybodaeth fuddiol am waith y cylch drwy gylchlythyr tymhorol ac mae nodau ac amcanion y lleoliad wedi eu harddangos yn amlwg ger y fynedfa.

Mae'r cylch wedi datblygu cysylltiadau gweithredol da gyda'r ysgolion cynradd y mae'r plant yn trosglwyddo iddynt.  Mae hyn yn hyrwyddo lles y plant.  Mae'r bartneriaeth sydd yn datblygu â lleoliadau meithrin cyfagos yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol gwerthfawr i'r staff.  Mae'r bartneriaeth â'r Pwyllgor Neuadd yn sicrhau adnoddau priodol i'r lleoliad.  Fodd bynnag, nid yw'r cylch eto wedi datblygu partneriaethau eang â chymdeithasau a mudiadau eraill o fewn y gymuned.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r rheolwyr a staff yn sicrhau y safon gorau o adeilad a chfleusterau allanol o fewn eu cyllideb a rheolaeth.  Mae'r lleoliad wedi ei staffio'n briodol ac fe wneir defnydd da o brofiad ac arbenigedd staff.  Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad a gwerthuso yn adnabod anghenion datblygu staff yn briodol ac maent wedi manteisio ar gyfleoedd datblygu o fewn trefniadau'r awdurdod lleol.

Caiff adnoddau ariannol eu rheoli'n effeithiol ac, yn gyffredinol, fe gysylltir gwariant gyda chynlluniau gwella yn dda.  Mae hyn yn gymorth i sicrhau fod penderfyniadau gwariant yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cynnydd a lles plant.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Gan bod nifer yr holiaduron rhieni a ddychwelwyd yn llai na deg nid yw'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad ohonynt.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Iwan Roberts | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |